Cyngor Celfyddydau Cymru

# Coronafeirws: Cymorth i Unigolion

## Cronfa Ymateb Brys

# Eglurhad Pellach

Ebrill 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Yn dyfarnu arian / Awarding funds from Y LOTERI GENEDLAETHOL THE NATIONAL LOTTERY®
Freelands Foundation

A all graddedigion 2019 ymgeisio ar yr amod eu bod yn dangos hanes o waith dros y 6 mis diwethaf ers graddio?

Ni fyddwn ni'n ariannu unrhyw un sydd wedi bod yn gweithio ers llai na blwyddyn ac nad yw wedi cael o leiaf un darn o waith proffesiynol wedi'i gynhyrchu, ei gyflwyno, ei gyhoeddi neu ei arddangos. Mae hyn oherwydd ein bod yn disgwyl gweld tystiolaeth o ymarfer proffesiynol fel sylfaen i'r gweithgarwch rydych chi am inni ei ariannu. Ar gyfer y gronfa ymateb brys, byddwn ni'n derbyn ceisiadau gan raddedigion 2019 os cefnogir eu cais gan dystiolaeth o waith proffesiynol am gyfnod yn sector y celfyddydau dielw yng Nghymru ers graddio.

Mae'r canllawiau'n nod nad yw myfyrwyr PhD yn gymwys i ymgeisio - ai dim ond pobl sydd mewn swyddi PhD â thâl sydd dan sylw?

Mae hyn oherwydd blaenoriaethu'r gronfa. Mae'n wir am bobl sy'n ymchwilio i PhD ac yn cael eu talu am wneud.

Nid yw gweithwyr proffesiynol ym maes addysg yn gymwys. A yw hyn yn wir am artistiaid sydd weithiau yn cael eu gwahodd i weithio mewn lleoliadau addysg fel gweithwyr llawrydd?

Bydd artistiaid sydd wedi'u gwahodd i weithio mewn lleoliadau addysg yn gymwys i ymgeisio.

Ai ystyr 'angen brys' yw angen ariannol yn y cyfnod Ebrill-Hydref pan fo grantiau prosiect ar gau? Mae artistiaid llawrydd yn annhebygol o gael gwaith arall yn ystod y cyfnod. Efallai nad ydynt mewn angen ariannol nawr ond byddant ymhen 3 mis ac efallai na fyddant mewn sefyllfa i ymgeisio am arian ymsefydlogi.

Mae ein hamserlen bresennol yn ymestyn tan Fedi. Mae'r sefyllfa mor gyfnewidiol felly rydym ni'n cymryd pethau gam wrth gam.

A yw ffilm rywle yn y rhestr o ddisgyblaethau a ariennir (yn yr adran Pwy all ymgeisio)?

Nid oes sôn penodol am ffilm ond teimlwn y byddai agweddau ar wneud ffilmiau yn dod dan yr elfennau eraill y byddwn ni'n debygol o'u hariannu megis y celfyddydau digidol, ysgrifennu neu gynhyrchu deunydd artistig/creadigol gwreiddiol.

Nid oes arian ar gael ar gyfer masnachwyr unigol (sef gweithwyr llawrydd sy'n eu talu eu hunain drwy strwythur busnes). A ydynt yn gymwys i ymgeisio?

Yn ein diffiniad gweithiol o weithwyr llawrydd, rydym ni'n cynnwys masnachwyr unigol. Felly maent yn gymwys i ymgeisio.

**A oes rhaid i'r cynllun ddilyn yn gaeth drothwy Llywodraeth Prydain o 50% o incwm llawrydd? Mae'n drothwy mympwyol sy'n gweithio yn erbyn y rhai sydd wedi bod ar famolaeth (er enghraifft). Y wybodaeth bwysig yw lefel yr incwm sydd gan bobl yn hytrach na'r gyfran lawrydd.**

Mae'n rhaid cael trothwy i'r gronfa a 50% yw'r un rydym ni wedi ei ddewis. Mae'n bosibl y bydd achosion (fel y rhai a grybwyllwyd) lle bydd raid inni arfer ein disgresiwn wrth asesu ceisiadau.

**Cymhwysedd, Yn ôl y Cwestiynau Cyffredin, ni all y canlynol ymgeisio:**

- unrhyw un sy'n gallu cael arian neu incwm o ffynonellau eraill
- unrhyw un sydd ar seibiant fel rhan o gynllun Llywodraeth Prydain i gadw swyddi

**Ond yn ôl y canllawiau, gallwch ymgeisio os ydych chi'n gyflogedig yn rhan-amser ac yn meddu ar ymarfer creadigol llawrydd. Hyd yn oed os yw'n glir fod dros 50% o'u hincwm yn gorfod dod o'u hymarfer celfyddydol, mae gwrthddweud yma sy'n awgrymu na allant gael unrhyw fath arall o incwm.**

Nod y gronfa yw ymateb i angen brys. Os yw ymgeiswyr:

- yn gymwys i gael arian arall gan y Llywodraeth
- ar seibiant o'u gwaith rhan amser (nad yw fel artist o bosibl)
- yn derbyn arian Loteri Genedlaethol
- disgwyliwn iddynt nodi hyn wrth ymgeisio a dangos pam bod angen arnynt arian arall.

**Sut y caf wybod a fyddaf yn gymwys i gynllun cymorth incwm hunangyflogedig y Llywodraeth?**

Gallai fod yn rhy gynnar ichi fod wedi cael cadarnhad eto. Felly rhowch wybod inni os ydych chi'n credu y byddwch chi'n gymwys a sut y bydd unrhyw oedi'n effeithio ar eich angen presennol.

Os credwch y gallech fod yn gymwys, ond na fydd y swm a gewch yn diwallu eich anghenion, byddwch chi'n gymwys i ymgeisio am unrhyw ddiffyg (o gofio'r sylwadau uchod am effaith unrhyw oedi).